ENWI AWTOMATIG CYFLYM (RAN) – DIGIDAU

Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Sgorio

Gwybodaeth am y Prawf

Beth sy'n cael ei fesur	Mae'r prawf yn mesur cyflymder enwi eitemau rhifyddol ac yn cyflwyno eitemau'n weledol sydd angen gwybodaeth rifyddol. Felly bydd y prawf yn mesur gallu'r plant i gynhyrchu labeli ar lafar i enwi'r digidau yn rhugl ac yn sydyn.	
Ystod oedran	Gan ei fod yn brawf alffaniwmerig, mae'r prawf yma yn addas ar gyfer plant ym mlwyddyn 1 a 2. Ni fydd y prawf yma yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth derbyn.	
Sgorio (Cyflymder, Gwallau)	Cyflymder: Cyfartaledd yr eiliadau mae'n gymryd i enwi'r holl set o'r gwrthrychau sydd ymhob treial (e.e., (eiliadau o dreial 1 + eiliadau o dreial 2)/2). Gwallau: Cyfartaledd nifer y gwrthrychau sydd wedi eu henwi yn anghywir neu wedi eu methu (e.e. (gwallau o dreial 1 + gwallau o dreial 2)/2).Bydd cyfradd y gwallau ond yn cael ei hystyried yn ansoddol, oherwydd ei bod fel arfer yn isel iawn.	
Normau	Bydd normau Cymraeg ar gael yn fuan	
Deunyddiau gweinyddu	Dyfais recordio Stopwats Cerdyn Ymarfer a Phrawf Digidau RAN Taflen Sgôr Digidau RAN	

© Caravolas, M., Mikulajová, M., Defior, S., & Seidlová Málková, G. (2018).*Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.*Cedwir pob hawl. Nid i'w hatgynhyrchu, copïo, lledaenu na chyhoeddi heb ganiatâd yr awduron.

Gweithdrefn y Prawf

1. Cyflwyniad i'r prawf

Mae'r Gweinyddwr yn dweud:

"Rŵan dan i'n mynd i enwi'r rhifau mor gyflym â phosib. Wyt ti'n gwybod enwau'r rhifau yma? *[Gweinyddwr yn dangos y pum rhif o'r* ***cerdyn Ymarfer a Phrawf Digidau RAN i'r plentyn****].*

Os gall y plentyn enwi'r digidau yn gywir heb gymorth mae'r Gweinyddwr yn symud ymlaen at yr eitemau Prawf.

Os dydy'r plentyn ddim yn gwybod enw'r digid mae'r Gweinyddwr yn enwi'r rhif ac yn gofyn i'r plentyn i'w ailadrodd. Wedyn mae'r Gweinyddwr yn gofyn i'r plentyn enwi'r set lawn eto (heb gymorth). Gall y broses hon gael ei ailadrodd hyd at dair gwaith os oes angen.

2. Cynnal y prawf

Gweinyddwr yn dweud:

"Rŵan pan dwi'n dweud **EWCH** enwch bob rhif ar y daflen mor gyflym â phosib. Mae rhaid i ti enwi'r rhifau mewn trefn." *[Gweinyddwr yn dangos y drefn o'r chwith i'r dde gan ddangos eitemau prawf]* "Cofia ddefnyddio dy fys i dy helpu i ddilyn. Os wyt ti ddim yn gwybod symuda ymlaen i'r rif nesaf mor gyflym â phosib. Barod, EWCH" *[Gweinyddwr yn dechrau'r prawf.]*

- Bydd y gweinyddwr yn dechrau'r stopwatsh cyn gynted ag y bydd y plentyn yn ynganu'r rhif cyntaf.
- Bydd y gweinyddwr yn stopio'r prawf ar ôl i'r plentyn ynganu'r rhif olaf.
- Dylai'r prawf gael ei recordio.
- Dylai dau dreial y prawf gael eu gweinyddu yn syth ar ôl ei gilydd mewn un sesiwn brawf.

3. Sgorio

- Dylai'r gweinyddwr gyfeirio at y Daflen Sgôr Digidau RAN i sgorio'r eitemau.
- Cofnodwch yr amser mewn eiliadau i bob treial ac yna cyfrifwch gyfartaledd y ddau amser.
- Cofnodwch gyfanswm gwallau pob treial ar y daflen sgôr a chyfrifo cyfartaledd y ddwy gyfradd gwall.
- Dydy hunan-gywiriadau DDIM yn cyfri' fel gwall, ond dylech eu cofnodi trwy ysgrifennu HG wrth ymyl y digid.
- Cofnodwch eitemau gaiff eu pasio/methu trwy ysgrifennu **/** wrth ymyl y digid, a chyfrif hyn fel gwall.

© Caravolas et al., (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl.